Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd
# {my}dentist, Rhiwabon, Wrecsam
# Dyddiad y gweithgarwch: 20 Gorffennaf 2021

Dyddiad cyhoeddi: 24 Awst 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-80195-850-9



© Hawlfraint y Goron 2021

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o bractis {my}dentist, Rhiwabon, Wrecsam fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis ym mhentref Rhiwabon yn cynnig amrywiaeth o driniaeth preifat ac ar ran y GIG. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig[1] a'r swyddog rheoleiddio ar 20 Gorffennaf 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut rydych yn sicrhau bod pob claf (gan gynnwys y grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel?
- Sut rydych yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19?
- Sut rydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull seiliedig ar hawliau ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaeth?

[1] Ystyr "rheolwr cofrestredig" yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat.

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Yr asesiadau risg amgylcheddol diweddaraf
- Yr asesiad risg diogelwch tân.

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Rhoddodd y rheolwr cofrestredig fanylion y newidiadau a wnaed i amgylchedd y practis er mwyn ei alluogi i weld cleifion yn ystod pandemig COVID-19. Er mwyn diogelu'r cleifion a'r staff, cawsom wybod bod drws ffrynt y practis yn cael ei gloi, gan sicrhau mai dim ond cleifion a oedd wedi trefnu apwyntiadau ymlaen llaw oedd yn cael dod i mewn i'r practis. Gofynnwyd i'r cleifion wisgo masgiau, dod ar amser a dod ar eu pen eu hunain lle y bo hynny'n bosibl. Dywedwyd wrthym y byddai'r practis yn ffonio'r cleifion cyn eu hapwyntiad er mwyn cwblhau holiadur sgrinio COVID-19. Byddai'r ymateb yn cael ei lanlwytho i ffeil electronig y claf. Dywedwyd wrth unrhyw gleifion â symptomau COVID-19 i aildrefnu eu hapwyntiad.

Dywedwyd wrthym y gofynnwyd i gleifion aros y tu allan i'r practis tan amser eu hapwyntiad. Darperid cadair i gleifion ag anghenion symudedd pe bai angen. Dywedwyd wrthym fod sgriniau wedi cael eu gosod yn y dderbynfa i ddiogelu'r staff a bod sticeri wedi'u rhoi mewn mannau amlwg i atgoffa'r cleifion i gadw pellter cymdeithasol. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod digon o hylif diheintio dwylo ar gael wrth fynedfa'r practis a bod unrhyw deganau a chylchgronau diangen wedi'u symud o'r ardal aros. Roedd taflenni ar gael ar gais yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd taflenni mewn ieithoedd eraill ar gael ar gais oddi wrth brif swyddfa'r practis.

Gwnaethom ofyn pa fesurau oedd ar waith i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cleifion am weithdrefnau diogelwch COVID-19 a dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael negeseuon testun yn eu hatgoffa am weithdrefnau diogelwch COVID-19 cyn eu hapwyntiadau. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym hefyd fod gwybodaeth wedi'i hanfon at y cleifion yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf.

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y Polisi Amgylcheddol a Glanhau, a ddiweddarwyd yn ddiweddar, yn ystyried yr angen i gynyddu'r mesurau perthnasol ar gyfer COVID-19. Gwelsom hefyd fod asesiad risg y practis yn gyfredol. Roedd rhif y fersiwn wedi'i nodi arnynt ac roeddent wedi'u llofnodi. Yn ogystal, cawsom wybod bod gweithgareddau glanhau yn cael eu

gwneud yn amlach ers y pandemig, a bod sylw penodol yn cael ei roi i sychu dolenni drysau.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Copi o archwiliad dihalogi diweddaraf WHTM01-05 a'r cynllun gweithredu ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella.
- Polisïau rheoli heintiau cyffredinol a pholisïau penodol i COVID-19
- Yr archwiliadau rheoli heintiau diweddaraf
- Amserlenni glanhau.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod pob aelod o'r staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y weithdrefn weithredu safonol ddiweddaraf a gyhoeddwyd gan Brif Swyddog Deintyddol Llywodraeth Cymru. Roedd y weithdrefn weithredu safonol yn cael ei hanfon at y staff a gallent ofyn unrhyw gwestiynau a oedd ganddynt mewn galwadau fideo rheolaidd. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod asesiad risg y practis wedi cael ei ddiweddaru hefyd i gynnwys mesurau rheoli COVID-19. Cafodd hwn ei ddarllen a'i lofnodi gan bob aelod o'r staff er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn. Dywedwyd wrthym fod grŵp penodol ar ap negeseua ffonau symudol er mwyn i'r staff gadw mewn cysylltiad a chael gwybod am y canllawiau diweddaraf ar COVID-19.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau asesiadau risg unigol mewn cysylltiad â COVID-19. Roed y staff hefyd wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar gyfarpar diogelu personol (PPE), gan gynnwys y ffordd gywir o'i wisgo a'i ddiosg[2]. Dywedwyd wrthym fod fideos hyfforddi newydd wedi'u hychwanegu at dudalennau gwe academi {my}dentist, i gynnwys gwisgo a diosg PPE a'r ffordd gywir o lanhau unedau hidlo aer[3].

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y prosesau a oedd ar waith i leihau'r risg o haint i'r staff a'r cleifion wrth gynnal gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol[4] yn y practis. Roedd rhestr

[2] Gwisgo - rhoi cyfarpar diogelu personol (PPE) ymlaen; Diosg - tynnu cyfarpar diogelu personol (PPE) i ffwrdd
[3] i leihau a dal llygryddion o'r aer neu'r llif aer
[4] Gweithdrefn feddygol yw gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol (AGP), a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr awyr (aerosolau) o'r llwybr anadlol wrth drin unigolyn yr amheuir neu y gwyddys ei fod yn dioddef o haint a gaiff ei drosglwyddo, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, drwy'r awyr neu drwy ddefnynnau.

wirio glanhau a ddilynwyd ym mhob deintyddfa, a defnyddiwyd weipiau diheintio cymeradwy i lanhau arwynebau. Roedd cleifion yn cael eu brysbennu dros y ffôn cyn eu hapwyntiad, er mwyn pennu pa driniaeth roedd ei hangen a pharatoi'r cyfarpar cywir. Roedd yr holl gyfarpar diangen naill ai wedi'i symud o ardal y ddeintyddfa, ei roi mewn cypyrddau neu ei orchuddio. Roedd nyrs benodedig wedi'i phenodi yn y practis i ddod ag unrhyw gyfarpar roedd ei angen ac nad oedd ar gael yn y ddeintyddfa. Dywedwyd wrthym fod aelod penodedig o'r staff yn monitro'r amserlen lanhau'n amlach, a bod y lloriau'n cael eu glanhau ddwywaith y dydd. Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod unedau hidlo aer wedi'u gosod yn ardaloedd y deintyddfeydd a'r ystafell aros, a oedd yn galluogi'r practis i weithredu'n unol â'r cyfnod segur lleiaf o 10 munud[5] yn dilyn gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol (AGP).

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y staff yn gwisgo'r PPE cywir, gan gynnwys masgiau FFP3[6], yr oeddent wedi cael prawf ffitio ar eu cyfer, gynau, ffedogau a feisorau. Rhoddwyd ffedog fawr a sbectol diogelwch i'r cleifion. Byddai llen rwber (rubber dam)[7] yn cael ei defnyddio lle y bo'n bosibl i leihau'r risg o ronynnau yn yr awyr (aerosolau)[8] ynghyd â mesurau sugno cyfaint uchel[9]. Cawsom wybod nad oedd y practis wedi cael unrhyw broblemau'n cael gafael ar PPE digonol yn ystod y pandemig. Roedd aelod penodedig o'r staff wedi'i benodi i gynnal gwiriadau stoc wythnosol er mwyn sicrhau cyflenwad digonol parhaus o'r eitemau gofynnol.

Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau rheoli heintiau a gwblhawyd yn ddiweddar, rhestrau gwirio ar gyfer cyfarpar dihalogi a sterileiddio ac amserlenni glanhau ar gyfer y tri mis diwethaf.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod y staff yn addas i gyflawni eu rolau a'u bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

[5] Cyfnod segur yw'r amser tawel yn y ddeintyddfa ar ôl gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol (AGP) sy'n galluogi unrhyw ddefnynnau i setlo cyn unrhyw waith glanhau a diheintio.
[6] Caiff yr angen i wisgo masg FFP3 (masg untro ar gyfer y trwyn a'r geg er mwyn anadlu'n ddiogel) ei nodi drwy asesiad risg clinigol. Defnyddir y masg i ddiogelu rhag pathogenau a ledaenir drwy anadlu. I ddefnyddio'r masgiau hyn, rhaid i'r aelodau perthnasol o staff gael prawf ffitio wyneb er mwyn sicrhau y gall y masg ffitio'r wyneb yn iawn a'i fod yn gweithio mor effeithiol ag sy'n ofynnol.
[7] Dalen denau o latecs neu ddeunydd nad yw'n cynnwys latecs yw llen rwber neu len ddeintyddol. Caiff ei defnyddio i wahanu'r dannedd o weddill y geg yn ystod triniaeth ddeintyddol er mwyn helpu i atgyweirio dannedd yn llwyddiannus.
[8] Gall aerosolau deintyddol gludo feirysau a throsglwyddo heintiau.
[9] Dyfais sugno sy'n tynnu llawer o aer dros gyfnod o amser yw Dyfais Gwagio Cyfaint Uchel (HVE).

- Adroddiad rheoliad 23 (ymweliad yr unigolyn cyfrifol[10]) neu, os yw'r unigolyn cyfrifol hefyd yn rheolwr cofrestredig, gopi o'r adroddiad blynyddol diweddaraf a baratowyd o dan reoliad 16(3) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017
- Polisïau / gweithdrefnau cydsyniad ar sail gwybodaeth
- Polisïau uwchgyfeirio
- Polisïau/prosesau corfforaethol i sicrhau bod y gwasanaeth yn barod ar gyfer argyfwng pandemig yn y dyfodol
- Cynlluniau parhad busnes
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol i bob aelod o'r staff
- Y cyfraddau cwblhau cyfredol ar gyfer hyfforddiant gorfodol
- Asesiadau risg a wnaed mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, yr amgylchedd, tân ac iechyd a diogelwch y staff
- Copi o'r datganiad o ddiben diweddaraf[11]
- Copi o'r daflen wybodaeth ddiweddaraf i gleifion[12].

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cawsom wybod gan y rheolwr cofrestredig bod y practis wedi aros ar agor drwy gydol y pandemig. Yn ystod camau cyntaf y pandemig, cynhaliwyd proses brysbennu o bell glinigol dros y ffôn, cyn i'r cleifion gael cynnig apwyntiad ar y safle. Diben hyn oedd sicrhau mai dim ond y cleifion hynny oedd angen apwyntiad wyneb yn wyneb oedd yn dod i safle'r practis. Cafodd cleifion eraill gyngor dros y ffôn neu eu hatgyfeirio at wasanaethau priodol eraill.

Cawsom y copïau diweddaraf o'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion, a oedd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am y gwasanaethau a gynigir. Yn ogystal, cawsom sampl o bolisïau a gweithdrefnau a oedd i gyd yn gyfredol, gyda rhif y fersiwn wedi'i nodi arnynt, ac wedi'u llofnodi.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod system ar waith i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r staff am unrhyw newidiadau i'r canllawiau, y polisïau a'r gweithdrefnau yn y practis. Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth hefyd ar gael i'r staff ar fewnrwyd y cwmni ac y byddai unrhyw newidiadau hefyd yn cael eu hanfon at y staff drwy e-bost. Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal drwy alwadau fideo i drafod unrhyw newidiadau i'r gweithdrefnau er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn. Ar ddechrau'r pandemig, cynhaliwyd y

[10] Ystyr "unigolyn cyfrifol" yw unigolyn sy'n gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall yn y sefydliad, ac sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli.

[11] Y datganiad o ddiben yw'r wybodaeth sy'n ofynnol gan Atodlen 1 i Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru). Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys nodau ac amcanion y practis ac enwau a chymwysterau'r deintyddion a'r staff deintyddol. Dylai hefyd restru'r mathau o driniaeth, cyfleusterau a phob gwasanaeth arall a ddarperir yn y practis deintyddol preifat neu at ei ddibenion, gan gynnwys manylion yr ystod o anghenion y bwriedir i'r gwasanaethau hynny eu diwallu.

[12] Mae'r daflen wybodaeth hon, a ddarperir i'r cleifion, yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol gan Atodlen 2 i'r rheoliadau uchod. Roedd y wybodaeth yn cynnwys crynodeb o'r datganiad o ddiben, trefniadau ar gyfer ceisio barn y cleifion, mynediad i'r eiddo a chadw apwyntiadau.

rhain deirgwaith yr wythnos, er mwyn sicrhau bod y staff yn gwbl ymwybodol o'r newidiadau a pha ganllawiau i'w dilyn. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y cwmni wedi sefydlu llinell gofal a chyngor i staff sy'n teimlo'n ansicr neu'n nerfus am y pandemig. Roedd y llinell ar gael 24 awr y dydd.

Pan ofynnwyd pa wybodaeth a chymorth oedd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, dywedwyd wrthym fod taflenni gwybodaeth a pholisi cwynion y practis ar gael i gleifion Cymraeg eu hiaith. Dywedwyd wrthym fod gwasanaethau cyfieithu ar gael i'r practis pe na bai siaradwr Cymraeg ar gael yn y practis ar y pryd. Roedd cymorth hefyd ar gael i siaradwyr ieithoedd eraill gan brif swyddfa {my}dentist.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth a bod yn rhaid i'r staff gwblhau modiwl hyfforddiant ar y pwnc hwn. Roedd rampiau ar gael i bobl â phroblemau symudedd ac roedd toiled i bobl anabl yn y practis. Yn ogystal, roedd un o ddesgiau'r dderbynfa ar lefel is (gyda sgrin) er mwyn bod yn addas i gleifion na allent ddefnyddio desg arall y dderbynfa. Roedd dolen sain hefyd ar gael i bobl â nam ar eu clyw.

Dywedwyd wrthym fod y prosesau archwilio a oedd ar waith wedi aros yn ddigyfnewid drwy gydol y pandemig a gwelsom dystiolaeth o archwiliadau yn cwmpasu amrywiaeth eang o feysydd gan gynnwys rheoli heintiau, cadw cofnodion a phresgripsiynau.

Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig ddisgrifio'r gweithdrefnau oedd ar waith i archwilio'r cyffuriau a'r cyfarpar brys. Dywedwyd wrthym fod y cyffuriau brys yn cael eu harchwilio bob dydd gan ddau aelod o'r staff. Roedd un ohonynt yn nyrs ddeintyddol gofrestredig gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol[13]. Byddai cyfarpar brys hefyd yn cael ei archwilio er mwyn sicrhau ei fod yno ac yn gyfredol. Unwaith y mis, byddai'r rheolwr cofrestredig yn gwirio'r daflen gofnodi ddyddiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r dasg hon. Dywedwyd wrthym fod y cyffuriau brys yn cael eu cadw mewn ardal lle na allai'r cyhoedd eu gweld, a thu ôl i ddrws a gaiff ei gloi bob nos. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod un cyffur, y dylid ei gadw mewn oergell fel arfer, yn cael ei gadw mewn ystafell gyda'r cyfarpar a'r cyffuriau brys eraill. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau nad oedd oedi wrth gael gafael arno, pe bai ei angen. Dywedwyd wrthym fod y dyddiadau darfod ar gyfer y cyffur hwn wedi cael eu haddasu i ystyried y newid hwn o ran y gofyniad storio, yn unol â chanllawiau Cymdeithas Ddeintyddol Prydain.

Cadarnhaodd y swyddog rheoleiddio fod disgwyl i unigolyn cyfrifol y practis gynnal ymweliad ar 11 Awst 2021. Mae'r ymweliad hwn yn ymwneud â rheoliad 23 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, er mwyn asesu ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu yn erbyn y rheoliadau a'r safonau perthnasol. Ar ôl cwblhau'r ymweliad, caiff adroddiad ei lunio y mae'n rhaid iddo wedyn gael ei gyflwyno i'r rheolwr cofrestredig ac AGIC.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

[13] Mae'r Cyngor yn gweithio i sicrhau diogelwch cleifion deintyddol a chynnal hyder y cyhoedd mewn gwasanaethau deintyddol.

Nid oedd y tymheredd yn cael ei reoli yn yr ystafell lle roedd y cyffuriau brys yn cael eu cadw. Mae'n bosibl felly fod y tymheredd wedi rhagori ar ofynion tymheredd storio un cyffur penodol, sef y cit chwistrellu glwcagon[14]. Nid oedd monitor tymheredd yn yr ystafell ychwaith.

Dylai'r practis sicrhau bod tymheredd yr ystafell lle caiff y cit chwistrellu glwcagon ei storio ei wirio'n rheolaidd a bod tystiolaeth o'r gwiriadau hyn yn cael ei chadw ar ffeil. Dylid cadarnhau a yw'r cit chwistrellu presennol yn effeithlon ai peidio, ac os bydd angen, dylid cael un newydd yn ei le. Dylid gwneud yr un peth ar gyfer unrhyw gyffuriau eraill a gedwir yn yr ystafell hon, os ydynt yn sensitif i dymheredd.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

[14] Gall Glucagon HypoKit gael ei storio y tu allan i'r oergell ar dymheredd heb fod yn uwch na 25°C am 18 mis ar yr amod nad yw'r dyddiad darfod wedi mynd heibio. Dylid ei storio yn y pecyn gwreiddiol er mwyn ei ddiogelu rhag goleuni.

# Cynllun gwella

Lleoliad: {my}dentist Rhiwabon, Wrecsam

Dyddiad y gweithgarwch: 20 Gorffennaf 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y Gwiriad Ansawdd, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Rhif Cyfeirnod | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam Gweithredu'r Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Nid oedd y tymheredd yn cael ei reoli yn yr ystafell lle roedd y cyffuriau brys yn cael eu cadw. Mae'n bosibl felly fod y tymheredd wedi rhagori ar ofynion tymheredd storio un cyffur penodol, sef y cit chwistrellu glwcagon. Nid oedd monitor tymheredd yn yr ystafell ychwaith.<br><br>Dylai'r practis sicrhau bod tymheredd yr ystafell lle caiff y cit chwistrellu glwcagon ei storio ei | Safon 2.6 Rheoli Meddyginiaethau<br><br>Rheoliad 31 Dadebru | Mae monitor tymheredd wedi'i roi yn yr ystafell cyffuriau brys.<br><br>Caiff tymereddau eu cofnodi bob dydd er mwyn sicrhau nad yw'r tymheredd yn uwch na 25°C<br><br>Er nad oes dim i awgrymu bod y tymheredd wedi codi uwchben 25°C, prynwyd cit Glucagen newydd er mwyn sicrhau | Helen Williams | 14/08/2021 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | wirio'n rheolaidd a bod tystiolaeth o'r gwiriadau hyn yn cael ei chadw ar ffeil. Dylid cadarnhau a yw'r cit chwistrellu presennol yn effeithlon ai peidio, ac os bydd angen, dylid cael un newydd yn ei le. Dylid gwneud yr un peth ar gyfer unrhyw gyffuriau eraill a gedwir yn yr ystafell hon, os ydynt yn sensitif i dymheredd. | | effeithiolrwydd y cynnyrch, fel mesur rhagofalus.<br>Mae'r holl gyffuriau eraill yn y bag wedi cael eu harchwilio a bydd unrhyw gyffuriau sy'n sensitif i dymheredd uwch na 25˚C yn cael eu gwaredu a rhoddir rhai newydd yn eu lle er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, a bydd tymheredd yr ystafell yn cael ei fonitro o hyn ymlaen. | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Helen Williams

Dyddiad: 10/08/2021